## Y Confensiwn ar Hawliau'r Plentyn

Mae Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn yn gytundeb rhyngwladol. Mae'n egluro'r hawliau y dylem ni (bob plentyn hyd at 18 mlwydd oed) eu cael. Mae'r hawliau hyn yn ein helpu ni i fod yn iach, yn hapus ac yn ddiogel ac i gymryd rhan ym mhob math o weithgareddau a phenderfyniadau sy'n effeithio arnom ni.

## Erthygl 31

Mae'r Confensiwn wedi ei rannu'n adrannau a elwir yn "erthyglau" sy'n egluro'r hawliau y dylai pob plentyn eu cael. Mae Erthygl 31 yn dweud bod gennym hawl i orffwys, hamdden, chwarae ac adloniant, ac i gymryd rhan mewn gweithgareddau diwylliannol a chelfyddydol.

## Y Pwyllgor ar Hawliau'r Plentyn

Mae'r Pwyllgor ar Hawliau'r Plentyn yn grŵp o bobl o bob cwr o'r byd sy'n arbenigwyr ar hawliau plant.



## Sylwadau Cyffredinol y CU

Mae hawl gan y Pwyllgor hwn i ysgrifennu "Sylwadau Cyffredinol" i egluro'r hyn y mae'r Confensiwn yn ei olygu. Mae Sylwadau Cyffredinol yn rhoi syniadau da a gwybodaeth i Lywodraethau a phobl eraill fydd yn ei gwneud yn haws i amddiffyn a chefnogi ein hawliau.





## Sylw Cyffredinol ar Erthygl 31

Ysgrifennwyd Sylw Cyffredinol ar gyfer Erthygl 31 er mwyn helpu llywodraethau a phobl eraill i ddeall pa mor bwysig yw chwarae, adloniant, diwylliant a'r celfyddydau. Mae hefyd yn helpu llywodraethau i sicrhau y gall pob un ohonom fwynhau'r hawliau hyn.



## Mae Erthygl 31 yn bwysig i blant a phobl ifainc



- Mae rhaid inni gael lle ac amser ar gyfer chwarae, adloniant ac ymlacio.
- Mae chwarae'n ein helpu i gadw'n ddiogel, yn iach a hapus.
- Mae RHAID i Lywodraethau ganfod ffyrdd i gael gwared â phethau sy'n tarfu ar amser i chwarae.
- Mae rhaid inni gael cyfleoedd i archwilio a deall ein diwylliant ein hunain.
- Dylem gael ein cynnwys mewn gweithgareddau diwylliannol a chelfyddydol.
- Mae rhaid i Lywodraethau sicrhau nad yw'r un ohonom yn cael ein gadael allan.
- Os y bydd Llywodraethau'n cymryd hyn i gyd o ddifrif, bydd ein bywydau'n hapusach ac iachach.



ipa
Promoting the Child's right to play

